

## Arlunio a Dylunio


Mae TGAU yn hanfodol ar gyfer y cwrs UG/A, gan ei fod yn darparu'r cyfle i weithio gyda sgiliau a thechnegau i greu ymateb bersonol i amryw o themau.

Cysylltwch â: **Miss D. Thomas**




### Strwythur a Chynnwys y Cwrs

Uwch Gyfrannol (UG)		Uwch (UG + A2)
<p><b>UG Uned 1: Arlunio a Dylunio</b></p> <p><b>Portffolio Gwaith Cwrs</b> <b>Ymholiad Creadigol Personol</b></p> <p>Un uned o waith cwrs yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc a ddatblygwyd o fannau cychwyn personol. Bydd pob darn o waith yn cael ei ddewis, ei werthuso a'i gyflwyno ar gyfer asesiad gan yr ymgeiswyr. Gellir arddangos dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol drwy ffurfiau ysgrifenedig, gweledol, llafar neu ffurfiau eraill sy'n briodol</p> <p>Pwysiad: 40%-160 marciau</p>		<p><b>A2 Uned 2: Arlunio a Dylunio</b></p> <p><b>Ymchwiliad Personol</b></p> <p>Un uned o waith cwrs yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc a ddatblygwyd o fannau cychwyn personol sy'n gofyn i'r ymgeisydd gyfathrebu ei ddealltwriaeth trwy integreiddio delweddau a thestunau sy'n cynnwys elfen ysgrifenedig nad yw'n llai na 1000 o eiriau.</p> <p>Bydd pob darn o waith yn cael ei ddewis, ei werthuso a'i gyflwyno ar gyfer asesiad gan yr ymgeiswyr. Gellir arddangos dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol drwy ffurfiau ysgrifenedig, gweledol, llafar neu ffurfiau eraill sy'n briodol.</p> <p>Pwysiad: 36% -160 marciau</p>
<p>UG = 1 uned (astudir ym Ml.12)</p> <p style="text-align: center;">+</p> <p>U2 = 2 uned (astudir ym Ml.13)</p> <p style="text-align: center;">yn gyfartal i Lefel A llawn</p>		<p><b>A2 Uned 3: Arlunio a Dylunio</b></p> <p><b>Aseiniad wedi'i osod yn allanol</b></p> <p><b>1af Chwefror</b></p> <p>Un uned sy'n cynnwys aseiniad a osodir yn allanol ac a gyflwynir i'r ymgeiswyr ar ddechrau'r cyfnod o baratoi ar gyfer y prawf dan oruchwyliaeth a fydd yn gyfnod parhaus o astudiaeth benodol o <b>pymtheg</b> awr. Argymhellir cyfnod clir o <b>chwe</b> wythnos ar gyfer paratoi.</p> <p>Bydd pob darn o waith yn cael ei ddewis, ei werthuso a'i gyflwyno ar gyfer asesiad gan yr ymgeiswyr. Gellir arddangos dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol drwy ffurfiau ysgrifenedig, gweledol, llafar neu ffurfiau eraill sy'n briodol.</p> <p>Pwysiad: <b>24%</b> -100 marciau</p>



**Asesiad:**

Blwyddyn 12 – UG (2 Uned)	Blwyddyn 13 – A2 (2 Uned)
<b>UG Uned 1:</b> Portffolio Gwaith Cwrs 40% o'r cymhwyster	<b>A2 Uned 2:</b> Ymchwiliad Personol 36% o'r cymhwyster  <b>A2 Uned 3:</b> Asesiad wedi'i osod yn allanol 24% o'r cymhwyster



**Dilyniant 18+:**

Cymhwyster hollol dderbyniol ar gyfer mynediad i brifysgol ac addysg uwch.  
 Mae'r posibiladau gyrfa yn cynnwys:

Agweddau amrywiol o'r economi greadigol sydd ohoni heddiw, yn enwedig ym maes hysbysebu ac e.fasnach.

